

EISTEDDFOD Y WLADFA, 1924.

Y Telynegion buddugol yn Eisteddfod y Wladfa 1924, ydoedd y rhai gyhoeddwyd yn y DRAFOD y wythnos ddiweddar, a Mr. Cynan Jones, Gaiman yn awdur iddynt. Llonyfarchwn yr awdur am ei delynegion etws a chymered y Swyddfa'n esgusodol fod eisiau'r eglurhad uchod.—Gol.

Y Telynegion.

(Buddugol)

"Y GWANWYN."

ATGYFODIAD A CHAN.

Cloion y bedd yn ddrylliau,
Nos yn ffoi rhag y dydd,
Egin yn torri'r dywarchen lwyd
A bywyd yn mynd yn rhydd.
Anthem yng nghân yr adar,
Molawd yn chwa y gwynn,
Cariad yn cyffwrdd a fhanau'm serch,
A'm calon yn curo'n gynt.
Oenig ar lethrau'r mynydd,
Grug ar lechweddau'r bryn,
Denir fy enaid i froydd hud
Yn swyn y prydfertion hyn.
Tybiais fod angel yn nesu
Hardded ei ffurf a'i llun,
Gwelais yr ymchwydd ar ddwyfron hardd
A gwridais o flaen "fy mun."
Gwelais flagur y Gwanwyn,
Teimlais y Gwanwyn llon,
Pan syrthiodd fy mun i fy mreichiau'n dyn
A phwys ei phen ar fy mron.

—o—

"YR HAF."

BYWYD A DIGON.

Mel yn ystordai'r gwenyn,
Mwyar yn nrysi'r berth,
Defaid yn gwledda ar borfa braf
Wrth odre y creigiau serth.
Coed yn eu diwyg newydd,
Anthem yr ardd ar fy nghlyw,
Adar yn mentro dros erchwyn nyth,
I helaeth ddarpariaeth Duw.
Meysydd toreithiog yn gwenu
Ydoedd yn euraidd donn,
Medelwyr yn hogi'r pladuriau draw
A chan ar wefusau llon.
Rhosynnau wrth ddrws fy mwithyn,
Hafddydd ar faelwyd lan,
Rhesyn ar ddwyrudd fy harddaf fun,
A nefoedd yr Haf yn ei chan.
Llawn yw fy ysguboriau,
Llawn fy ydannau braf
Heno bydd deuddyn wrth orsedd Duw
Yn diolch am wenau'r Haf.

"YR HYDREF."

MARW I ARALL FYW.

Llwm yw y meysydd heno,
Meelion yw brigau'r coed,
Drychin sy'n tramwy'r mynyddoedd du
A'i thymp fel llechwraidd droed.
Unig yw cri'r ddallhuan
Draw o gulfachau'r graig,
Gwae ydyw byrdwn yr anthem ffroch
Genir gan donnau'r aig.
Cryf ydyw swyn y corwynt,
Nesu mae'r storom flin,
Clywaf ei rhodiad fel sangiad cawr
Ar lori o ddeiliach crin.
Gwlyb yw ffenestri'm bwthyn,
Minnau dan ofid trwm,
Yn sylwi ar ddifrod yr Hydref blin
Rhwyng muriau fy nghartref llwm.
Unig yw cri fy etifedd
Rhwyng estyll cysurus grud,
Oer ydyw ffurf fy hawddgaraf fun
Ym mreichiau yr angau mud.

"Y GAELAF."

BEDD A GOBAITH.

Eira'n gordoi'r mynyddoedd,
Anian fel alarch claf,
Hiraeth yng nghwynfan yr adar trist
Hiraeth am hiraethydd Haf.
Crynu wna'r crwydryn carpiog,
Gura wrth ddrysau'r wlad,
Oer ydyw'r awel ar ddwyrudd laith
Oer megis cusan brad.
Distaw a mud yw natur,
Tawel mewn cwsg o hedd,
Tawel, nes detry y Gwanwyn mwyn
Gloion ei hoerllyd fedd.
Oer yw fy nghalon unig,
Gaeaf sy'n ffenaid gwyw,
Heulwen fy mywdd dan orchudd gwyn
Orwedd yn erw Duw.
Distaw y llais a'm llonnai,
Gwywodd yr harddaf rudd,
Ond udgorn y Gwanwyn ddeffr fy mun
Draw mewn tragwyddol ddydd.

Trist yw y Wladfa ar erchwyn y beddrod,
Hiraeth am rhywun sy'n chwerwi ei chri
Tannau ei thelyn gan angau a'i ddyrnod
Ddrylliwyd, a heddyw mae'n nghrog uwch
y lli.

Adgof fyn grwydro i fynwent y Gaiman,
Erys mew'n galar a siom uwch ei bedd ;
Gwlad gyda'i dagrau eneinia'i gorffwysfan,
Mwydir y briddell a guddiodd ei gwedd.

Llogodd hi allan wrth wasgar goleuni,
Rhoddodd ei bywyd ar allor ei gwaith ;
Ymlid anwybod o'n gwlad a'i holl egni,
Hyn oedd ei hewyd hyd derfyn y daith.
Erys ei hol yn yr Ysgol Ganolradd,
Cofia'r disgyblion am dani yn hir ;
Ffrwytha ei haddysg, a chesglir o'r adladd
Lond ysguboriau ieuentid ein tir.

Byth ni anghofir ei dawn fel athrawes
Gyda phlant bychain yr hof Ysgol Sul,
Tyner arweiniai y rhain fel angyles,
Cododd ganllawiau oddeutu'r Ffordd Gul.
Erys ei gwersi fel llusern i'w tywys
Wedi y tyfont i fyny i oed ;
Cofiant am byth am ei llafur di-orffwys,
Troad ei llygad a th'rawiad ei throed.

Anhawdd oedd 'madael a'i phriod a'i phlen-
ty,

Anhawdd oedd gorffwys ar ganol eigwaith,
Anhawdd oedd marw mor gynnar 'n y
gwanwyn,

Anhawdd oedd eistedd cyn diwedd y
daith,

Collwyd hi yma ym mhlygion yr amdo ;
Nid na'u'n hiraethus a lleddf yw ein llef ;
Diolch er hynny fod gobaith ail-uno,
Diolch, cawn eto ei chwrdd yn y nef.

IAL.

Cwrdd Coop, Mai 18, 1926.

Haid ddinod yn diddanu—eu gilydd—

Ar gelu a thaeru ;

Tra torfoedd trwy y tyrfu

Floeddia fyth am aflwydd fu.

Cwrdd o hanfod cysgodion,—ei fri

Yw dirfawr ddîrgelion,

Llwm a sych llym a son

Clwyd i geiliog clywedion.

Hugh John ni fydd fodloni—ar raen

Dirinwedd y Cwmni ;

Cwyna yn ffrech—cana'n fri

Nad yw dyled ond dwli.

Cludir draw ar yr awel—ru nwydau

R nodedig John Howell ;

Tonnau o swm tân ei sel

A gyrraedd hyd y gorwel.

Morgan (medd un) am ergyd—ac yma

Bu'r Cwmni dan benyd ;

Ond 'e ganfu nad gwynfyd

Sennu di-ben syniad byd.

"Cymro Mawr," a camrau mwy—a rod—

Hyd rydau y gofwy ;

Yntau yn glau o tan glwy

Dur pared y dirprwy.

Don Jose ddwed dan chwysu—am doll

Nam d'wllwch y fagddu ;

Tra llogau neu dollau du

Peir y glyn i'n peryglu.

Yn dawel mae Don Elias—yn galw

Ein glewion yn addas ;

"Gymry brwd, rhowch gamrau bras

O geulennydd galanas."

A fo drwm ar y Cwmni—rhoed goel

Ar rad gyngor Cerutti ;

"Cydnwch eich cadwyni

I wared llwyth o rawd lli."

PRYDYDD Y PAL